



[www.furthermaths.org.uk/wales](http://www.furthermaths.org.uk/wales)

BELIEVE CREDU ACHIEVE CYFLAWN I SUCCEED LLWYDDO



Astudiaeth Achos	Ysgol Uwchradd y Fflint	
Cyfeiriad	Maes Hyfryd, Fflint CH6 5L	
Prifysgol	Prifysgol Warwick	

**Astudiaeth Achos: Trosglwyddo i Brifysgol**

## Myfyriwr – Ryan Colclough

### Cefndir

Astudiodd Ryan Colclough Fathemateg Bellach trwy'r Rhaglen Gymorth Mathemateg Bellach. Roedd yn cael ei hyfforddiant ar-lein.

Cafodd FMSP Cymru sgwrs gyda Ryan yn Ionawr 2017

### FMSP Cymru: Felly beth ddigwyddodd ar ôl i chi basio eich arholiadau Mathemateg Bellach?

Rwy'n gwneud gradd mewn mathemateg yn Warwick. Dewisais hyn oherwydd bod llawer o hyblygrwydd gyda'r modiwlau y gallwch ddewis. Ceisiais am Gaergrawnt ond chefais i ddim cynnig. Mae gan Warwick adran gref iawn. Roeddwn yn hoff iawn o olwg y radd hon. Mae'n swnio braidd yn wirion rwan ond roedd yn benderfyniad rhwng mathemateg ac ysgol ddrama. Roedd hwn yn ymddangos yn fwy synhwyrol a diogel. Rwy'n mwynhau mathemateg yn fawr ac felly nid yw'n galedi.

**Beth wnaethoch chi ei astudio?**

Mathemateg, Mathemateg Bellach, Ffiseg, Theatr ac Astudiaethau Drama a Chemeg Lefel AS.

Dwi wastad wedi bod yn dda mewn mathemateg. Doedd yr ysgol ddim yn cynnig y Lefel A llawn, felly cefais hyfforddiant yn ail flwyddyn y 6ed dosbarth. Fe wnes ddau fodiwl Mathemateg Bellach ym mlwyddyn 12 ac yna roeddwn yn awyddus i wneud rhagor, felly mi wnes y gweddill i gyd ym Mlwyddyn 13. Mi wnes bendant flaenoriaethu'r mathemateg. Bu'n rhaid i mi wneud STEP hefyd.

### **Ydych chi'n meddwl bod astudio Mathemateg Bellach drwy FMSP Cymru wedi helpu eich trosglwyddiad i Brifysgol?**

Mae'r sgiliau astudio a ddatblygwyd gan Fathemateg Bellach wedi helpu. Roedd rhaid bod mwy annibynnol. Mae yna hefyd yr arholiad STEP. Roedd gwneud Mathemateg Bellach yn bendant yn help i allu gwneud y papurau hynny.

### **A oes unrhyw ffordd y teimlwch fod Mathemateg Bellach wedi helpu yn benodol?**

Mae'r radd yn anodd! Credaf fod Mathemateg Bellach wedi fy helpu i gael y lle. Dwi ddim yn credu fy mod i wedi cwrdd ag unrhyw un yma sydd heb wneud Mathemateg Bellach Safon Uwch. Mae gorfod meddwl yn wahanol yn ei wneud yn anoddach na mathemateg Safon Uwch.

Nid yw mathemateg yn y brifysgol yr hyn oeddwn yn disgwyl iddo fod ond dwi yn ei fwynhau. Mae'n anodd oherwydd nad ydych yn gwybod eich bod yn mynd i fwynhau cyn i chi ddechrau.

### **A fydddech yn argymhell Mathemateg Bellach a pham?**

Ewch am Fathemateg Bellach - peidiwch â disgwyl iddo fod fel Safon Uwch. Byddwch yn dda am reoli eich amser. Gwnewch y gwaith opsiynol sy'n cael ei osod. Nid yw'n cael ei asesu ond mae yno i'ch helpu. Mae'n eich helpu i ddeall.